

**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**  
**COFNODION CYFARFOD BRYN 24 TACHWEDD 2022**  
6.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

**1. Presennol**

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

**2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol**

Dim

**3. Ymddiheuriadau**

Dim

**4. Cais Cynllunio Garreg Frech**

Yn dilyn y sesiwn galw i mewn a gynhaliwyd yn Y Ganolfan yn gynharach y prynhawn, a'r ymweliad safle, trafodwyd ymateb y cyngor cymuned i'r cais cynllunio.

Y prif bwyntiau a wnaethpwyd oedd:-

- Nad oes tystiolaeth fod gwir angen am dai yn lleol a bod 8 tŷ yn ormod
- Angen blaenoriaethu tai ar gyfer pobl leol a siaradwyr Cymraeg
- Pryder am gynnydd yn y traffig a'r mynediad cul i'r safle newydd
- Effaith y datblygiad ar y llwybr sy'n mynd drwy'r safle
- Effaith edrychiad y datblygiad sydd ar fryn ar yr amgylchedd
- Y datblygiad yn gor edrych tai presennol cyfagos
- Pryder am ddŵr glaw ychwanegol yn rhedeg i lawr o'r safle
- Gofyn am ymweliad safle

Bydd y Clerc yn coladu'r sylwadau mewn ffurf llythyr drafft, cyn ei ddanfon at yr aelodau a llunio o lythyr terfynol i'w ddanfon at adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri erbyn 30 Tachwedd.

**5. Anfoneb Paentio'r Ganolfan £2933.87**

Yn dilyn gwaith ychwanegol, mae'r amcan bris am baentio'r Ganolfan wedi codi o £2,252.43 i £2933.87 fel pris terfynol, oherwydd gwaith ychwanegol

Y gwaith ychwanegol oedd:-

- 4ydd côt dros y gwyrdd, melyn a phinc
- Llenwi tyllau pibelli yn y gegin
- Glanhau'r teils a rhoi silicon newydd yn y ddau doiled
- Crafu, sandio a thrin y paent rhydd mewn amryw lefydd drwy'r adeilad
- Tynnu teils yn y gegin a chrafu'r adhesive
- Glanhau darnau gwlybaniaeth efo Sugar Soap
- Crafu hen baent oddi ar socedi, gwresogyddion ac ati

## **6. Unrhyw Fater Arall**

### **6.1 Holiadur Cae Chwarae**

Gan fod y cais cynllunio yng Ngharreg Frech wedi ei gyflwyno, fe gytunwyd y byddai'n briodol dosbarthu yn y dyfodol yr holiadur am y ddarpariaeth chwarae i blant yn Llanfrothen

### **6.2 Llogi'r Ganolfan**

Mae rhai wedi dangos diddordeb mewn llogi'r Ganolfan. Cytunwyd i osod Y Ganolfan mewn egwyddor, ond bod angen cytuno ar y telerau gosod yn y tymor hir.

### **6.3 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw**

Mae Ymddiriedolwyr Brondanw yn cyfarfod ar 13 Rhagfyr ac fe roddwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r cyngor cymuned fynychu. Cytunodd y Cyngorydd Glyn Griffiths a'r Cyngorydd Nia Povey fynychu.

<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Ionawr 2022</b>
---